O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2604 (Cy. 282)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 32, Helygain i Gyffordd 34, Ewloe, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011

Gwnaed *1 Tachwedd 2011*

Yn dod i rym *12 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer i Fangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig, a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Tachwedd 2011. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 32, Helygain i Gyffordd 34, Ewloe, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period"*) yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 12 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na pheri reidio beiciau pedal ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

7. Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 1 Tachwedd 2011.

G R Mogan
G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru

ATODLEN 1

Gwahardd Dros Dro Gerbydau, Cerddwyr a Beicwyr

i. Y darnau cyfan o holl ffyrdd ymuno ac ymadael â'r gefnffordd wrth Gyffordd 32, Helygain i Gyffordd 34, Ewloe.

ii. Y darnau hynny o'r prif gerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32, Helygain, i ganolbwynt Cyffordd Ewloe.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro

Y darnau hynny o'r prif gerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32, Helygain, i ganolbwynt Cyffordd Ewloe.